

Prif Weithredwyr
Y Byrddau Iechyd

18 Mai 2018

Annwyl Brif Weithredwr,

Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

Bu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn craffu ar Lywodraeth Cymru yn 2017 ar ddiwedd y cyfnod cyntaf o dair blynedd o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Roeddem o'r farn bod y pwnc hwn yn un pwysig i graffu arno o gofio bod pedwar o'r saith bwrdd iechyd yn wynebu diffyg ariannol ar ddiwedd y cyfnod cyntaf o dair blynedd a bod materion yn codi o ran y cyfrifon.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i barhau â'r gwaith hwn, i ystyried y cyfnod 2017-18 a sefyllfa pob un o'r byrddau iechyd ar ddiwedd y flwyddyn. Er mwyn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu atebion mor gynhwysfawr â phosibl i'r cwestiynau isod.

Mae rhai cwestiynau penodol yn dibynnu ar eich alldro ariannol tebygol ar gyfer 2017-18 - yn benodol, a yw'r bwrdd iechyd wedi cyflawni'r ddwy ddyletswydd o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 ac a yw'r sefyllfa o ran alldro yn welliant ar 2016-17. Rwy'n cydnabod nad oes adroddiad ar y sefyllfa derfynol wedi'i gyflwyno eto drwy'r cyfrifon archwiliedig, ond rydym wedi seilio ein trafodaethau ar y rhagolygon yn y cyfryngau ac ar eich gwefannau. Os yw'r sefyllfa o ran alldro yn debygol o fod yn sylweddol wahanol i'r rhagdybiaeth a wnaed yn y cwestiynau hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael y wybodaeth ddiweddaraf gennych fel rhan o'ch ymateb.



Cyflawni dyletswyddau ariannol

Ar gyfer y byrddau iechyd hynny sy'n ymddangos nad ydynt yn debygol o gyflawni'r ddyletswydd i fantoli'r cyfrifon dros dair blynedd (sef Hywel Dda, Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro, Abertawe Bro Morgannwg):

- Beth oedd y prif ffactorau/rhwystrau a effeithiodd ar eich gallu i gyflawni'r dyletswyddau ariannol?
- Ar gyfer Betsi Cadwaladr a Hywel Dda: beth oedd y rheswm am y dirywiad pellach yn y sefyllfa yn ystod y flwyddyn ariannol hon?
- Ar gyfer Caerdydd a'r Fro ac Abertawe Bro Morgannwg: beth ydych wedi'i wneud sydd wedi golygu eich bod wedi gallu gwella'r sefyllfa o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf?

Ar gyfer y rhai sy'n ymddangos ar y trywydd cywir i barhau i gyflawni eu dyletswydd i fantoli'r cyfrifon dros dair blynedd (Cwm Taf, Powys, Aneurin Bevan)

- Beth yw'r prif ffactorau sydd wedi eich galluogi i gyflawni'ch dyletswyddau ariannol, a beth yw'r gwersi allweddol y gallai eraill eu dysgu gennych chi?

Dyletswydd i gael cynllun tair blynedd wedi'i gymeradwyo

Ar gyfer y rhai nad ydynt wedi cyflawni eu dyletswydd i gael cynllun tair blynedd wedi'i gymeradwyo (Hywel Dda, Betsi Cadwaladr, Caerdydd a'r Fro, Abertawe Bro Morgannwg):

- Beth yw'r prif resymau nad ydych wedi gallu cytuno ar gynllun tair blynedd a beth yw'r rhwystrau sy'n parhau i'ch atal rhag cael cynllun cytunedig?

Ar gyfer y rhai sydd wedi cyflawni eu dyletswydd i gael cynllun cytunedig (Cwm Taf, Powys, Aneurin Bevan)

- Beth oedd y prif wersi wrth ichi lwyddo i ddatblygu cynllun cytunedig y gallai eraill eu dysgu?

Cefnogaeth ac arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau tair blynedd

- Pa mor ddefnyddiol yw'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cynlluniau tair blynedd?
- A oes unrhyw feysydd lle gallai'r canllawiau hyn fod yn gliriach – gan gynnwys sylwadau ynghylch argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylai



Llywodraeth Cymru nodi'n gliriach yn ei chanllawiau sut y dylai cyrff y GIG sy'n wynebu diffyg ariannol, drwy gydweithio â Llywodraeth Cymru, wneud cynlluniau i adfer eu sefyllfa ariannol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd berthnasol yn y dyfodol.

Cynlluniau ar gyfer rheoli ac arbed arian

- Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd allweddol i'ch bwrdd iechyd wrth gynllunio ar gyfer gwneud arbedion ariannol a sicrhau'r arbedion hyn?
- Faint o effaith y mae'r Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella cenedlaethol wedi'i chael ac a oes enghreifftiau penodol o sut mae gwaith y grŵp hwn wedi helpu i sicrhau arbedion i'ch bwrdd iechyd?
- Sut mae eich bwrdd iechyd wedi ymateb i argymhellion asesiad strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'ch cynlluniau cynilo a'ch gwaith cyffredinol o gynllunio/rheoli ariannol?
- A oes unrhyw wersi a ddysgwyd gan adolygiadau llywodraethu ariannol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mewn rhai byrddau iechyd wedi'u rhannu a'u cymhwyso'n ehangach? Os felly, sut?

Ar gyfer Abertawe Bro Morgannwg, Hywel Dda, Caerdydd a'r Fro a Betsi Cadwaladr:

- Pa gamau allweddol ydych chi wedi'u cymryd, neu ydych chi'n bwriadu eu cymryd, mewn ymateb i'r adolygiadau llywodraethu ariannol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru? Os oes gennych ymateb mwy cyfredol sydd yn y parth cyhoeddus, a fydddech cystal â chynnwys y linc yn eich ymateb?

Ar gyfer Hywel Dda:

- Pa gamau allweddol ydych chi wedi'u cymryd, neu ydych chi'n bwriadu eu cymryd, mewn ymateb i'r adolygiad ar sail sero?

Y fformiwla cyllido

- Sut mae byrddau iechyd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddiweddarau'r fformiwla cyllido, a beth yw eich dealltwriaeth o'r cynnydd hyd yma?
- Pa newidiadau allweddol sydd angen eu gwneud i'r fformiwla cyllido yn y dyfodol, yn eich barn chi?



- Sut ydych chi'n meddwl y dylid rheoli unrhyw waith trawsnewid os oes newidiadau sylweddol i'r fformiwla/dyraniad?

Effaith gyffredinol Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014

- A yw'r Ddeddf wedi arwain at newid amlwg yn ymddygiad cyrff y GIG a Llywodraeth Cymru, gan symud i ffwrdd o ffocws tymor byr tuag at y tymor hir?
 - Os felly, ym mha ffordd?
 - Os na, beth yw'r rhwystrau allweddol sy'n atal newid?

Rwy'n deall bod y tîm Clercio wedi bod mewn cysylltiad â'r Byrddau Iechyd hynny y mae'r Pwyllgor yn dymuno cymryd tystiolaeth lafar ganddynt, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau eich bod ar gael ar gyfer y cyfarfodydd hyn. Gofynnir yn garedig ichi ymateb i'r llythyr hwn erbyn **15 Mehefin 2018**.

Yn gywir,



Nick Ramsay AC
Cadeirydd

